




Urdd



Urdd Gobaith Cymru


Llawlyfr Arweinyddion

2016 - 2017

Mae Urdd Gobaith Cymru yn sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Ein nod yw:

- Dod a'r Gymraeg yn fyw i blant a phobl ifanc Cymru a chynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.
- Darparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Newid bywydau plant a phobl ifanc drwy ehangu eu gorwelion, rhoi hyder iddynt, a'u hargyhoeddi o werth y Gymraeg.



Croeso

Hoffwn ddiolch yn fawr i chi fel arweinyddion a chefnogwyr canghennau'r Urdd am roi o'ch amser i roi profiadau gwych i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nod y llawlyfr, ynghyd â chefnogaeth eich Swyddog Datblygu Lleol, yw sicrhau fod gennych chi fel gwirfoddolwyr yr holl wybodaeth angenrheidiol i drefnu gweithgareddau diogel yn eich adran, aelwyd neu gangen.


Plant a phobl ifanc yw calon y mudiad a'n nod fel staff a gwirfoddolwyr yw ymateb i'w hanghenion fel bod ganddynt y cyfle i wneud penderfyniadau, i leisio barn ac i gyd-drefnu gweithgareddau eu hadran, aelwyd neu gangen. Rydym wrth gwrs yn awyddus i bawb sy'n cymryd rhan fod yn aelodau o'r Urdd, mae manylion ar sut i wneud ar wefan yr Urdd.

Fel unrhyw weithgaredd sy'n cael ei chynnig i blant a phobl ifanc, dylai unrhyw gangen o'r Urdd:

- Sicrhau bod pawb, beth bynnag bo'u hil, rhyw, crefydd, anabledd, cefndir, hunaniaeth rywiol, iaith neu amgylchiadau personol yn gallu cymryd rhan;
- Hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'r angen i hybu'r defnydd a wneir ohoni;
- Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sydd yn addysgiadol, mynegiannol, cyfranogol, cynhwysol a grymusol (yn unol a'r ddogfen Gwaith leuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion, Ionawr 2013)

Mewn rhai ardaloedd mae Swyddogion leuenctid a ariennir drwy gytundebau ag Awdurdodau Lleol ar gael i gefnogi gweithgarwch 11+. Holwch eich Swyddogion Datblygu am wybodaeth. Mae Swyddog leuenctid Cenedlaethol yr Urdd, Lleucu Sion, wedi ei phenodi i drefnu gweithgareddau taleithiol a chenedlaethol ar gyfer pobl ifanc.

Diolch yn fawr iawn unwaith eto am eich ymrwymiad, brwdfrydedd a'ch amser wrth gynnal gweithgaredd yn enw'r Urdd. Cofiwch gysylltu os oes angen unrhyw arweiniad pellach arnoch.



Sioned Hughes

Prif Weithredwr

RHIFAU FFÔN ALLWEDDOL

Prif Swyddfa'r Urdd:

Swyddfa'r Urdd - Penhelyg
Gwersyll yr Urdd
Llangrannog
Llandysul
Ceredigion
SA44 6AE

☎: 01239 652160

Ebost: helo@urdd.org

Y We: urdd.cymru

Manylion cyswllt eich Swyddog Datblygu

Bydd eich Swyddog Datblygu yn gosod label yma

Adran Aelodaeth: 01239 652162 neu aelodaeth@urdd.org

Adran Eisteddfod: 01678 541 012

Adran Chwaraeon: 02920 635 686

Rhifau ffôn sy'n ddefnyddiol i chi

Cyfarwyddwr	
Swyddog Datblygu	
Swyddog Datblygu Cynorthwyol	

LLAWLYFR ARWEINYDDION YR URDD 2016 - 2017

Cynnwys


Caiff Llawlyfr Arweinyddion yr Urdd ei ddiweddarau yn flynyddol i adlewyrchu gwaith y mudiad, gofynion iechyd a diogelwch ac i hwyluso eich gwaith chi fel arweinyddion gwirfoddol.

Cynnwys

1	<u>Iechyd a Diogelwch</u>	6
	<u>Datganiad Iechyd a Diogelwch yr Urdd</u>	8
1A	<u>Beth i'w wneud mewn achos o argyfwng, damwain neu ddigwyddiad difrifol</u>	9
2	<u>Man Cyfarfod yr Adran</u>	11
3	<u>Rhestr arfer da, trefn argyfwng, damwain a digwyddiadau difrifol</u>	12
4	<u>Asesu Risg a Gofalaeth Plant</u>	13
4A	<u>Ffurflen Asesu Risg</u>	16
5	<u>Tystysgrif Yswiriant</u>	20
6	<u>Datganiad Polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc</u>	22
7	<u>Ffurflen Gwybodaeth Aelodau</u>	25
8	<u>Ffurflen Manylion Pwysig am yr Aelodau</u>	26
9	<u>Ffurflen Ganiatâd i Ymaelodi Unigolion ag adran/aelwyd</u>	29
10	<u>Tystysgrif Iechyd</u>	30
11	<u>Ffurflen Gofnodi Damwain a Digwyddiad</u>	32
12	<u>Anghenion Hyfforddi</u>	35
13	<u>Cofrestr</u>	36
14	<u>Enghraifft - Rhaglen Weithgareddau</u>	38
15	<u>Cymorth a Chefnogaeth</u>	41
16	<u>Ap a Gwefan yr Urdd</u>	42
17	<u>Dyddiadau i'w cofio</u>	43
18	<u>Aelodaeth</u>	44

Mae holl gynnwys y llyfryn hwn ar gael ar wefan yr Urdd - urdd.cymru/arweinwyr

Gellir hefyd gweld y llyfryn hwn a holl bolisiau perthnasol y Mudiad wrth fewngofnodi i'r system arweinydd cangen drwy ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair



Urdd

lechyd a Diogelwch

1. Iechyd a Diogelwch

Mae'n bolisi gan Urdd Gobaith Cymru i wneud popeth o fewn ein gallu, cyn belled â bo hynny'n rhesymol ac ymarferol, i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff, y gwirfoddolwyr ac aelodau'r Urdd sydd o dan eu gofal. Mae Urdd Gobaith Cymru yn cydnabod ac yn derbyn y cyfrifoldeb i ddarparu, hyd y gellir yn rhesymol, fannau gweithio diogel nad ydynt yn beryglus i iechyd y gweithwyr ac eraill, a lleoliadau gweithgareddau a digwyddiadau diogel i staff yr Urdd, gwirfoddolwyr ac aelodau'r mudiad.

Mae'r Urdd yn ymrwmo i ddarparu cyfleoedd i gynrychiolwyr o'r staff a gwirfoddolwyr fynychu cyrsiau iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi'i ymrwmo i greu amgylchedd gwaith iachus a diogel ar gyfer yr holl staff a defnyddwyr adnoddau a chyfleusterau Urdd Gobaith Cymru wrth ymgymryd â gweithgareddau o dan drefniadaeth yr Urdd.

Mae gan bawb sydd yn ymwneud â mudiad Urdd Gobaith Cymru gyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch staff llawn amser, rhan amser, swyddogion, aelodau pwyllgorau a gwirfoddolwyr eraill.

Yn dilyn y canllaw *Beth i'w wneud mewn achos o argyfwng, damwain neu ddigwyddiad difrifol* mae rhestrau gwirio sydd rhaid eu cwblhau i sicrhau fod y systemau priodol ar gael i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff, y gwirfoddolwyr ac aelodau'r Urdd o dan eich gofal.

Cyfeirnod	Teitl y ffurflen	Canllawiau gweithredol
1A	Trefn Argyfwng Damweiniau a Digwyddiadau Cythryblus	Mae yn arfer da i gadw copi yn eich ffeiliau adran/aelwyd.
4A	Cynllunio Asesiad Risg	Mae angen paratoi asesiad risg ar gyfer pob un o weithgareddau'r Urdd.

Datganiad

Isod ceir datganiad o bolisi iechyd a diogelwch y sefydliad yn unol ag Adran 2 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayyb 1974.

Polisi Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau hyd y gellir yn ymarferol, iechyd, diogelwch a lles yr holl weithwyr sy'n gweithio i'r cwmni ac unrhyw unigolion eraill a allai gael eu heffeithio gan ein gweithredoedd.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn cydnabod mai'r allwedd i reolaeth iechyd a diogelwch llwyddiannus yw polisi, trefniadaeth a threfniadau effeithiol, sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr uwch reolwyr. Er mwyn cynnal yr ymrwymiad hwnnw, byddwn yn mesur, monitro a diwygio lle fo'n ofynnol yn barhaus, cynllun blynyddol i sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal yn ddigonol.

Bydd y Prif Weithredwr yn gweithredu polisi iechyd a diogelwch ac yn argymhell unrhyw newidiadau i fodloni amgylchiadau newydd. Mae Urdd Gobaith Cymru yn cydnabod bod rheolaeth iechyd a diogelwch llwyddiannus yn cyfrannu at berfformiad busnes llwyddiannus a bydd yn dyrannu arian ac adnoddau digonol i fodloni'r anghenion hyn.


Mae rheolwyr Urdd Gobaith Cymru yn edrych ar hyrwyddo mesurau iechyd a diogelwch fel amcan ar y cyd ar gyfer eu hunain a'u gweithwyr. Gan hynny, polisi'r rheolwyr yw gwneud popeth sy'n ymarferol bosibl i atal anaf personol a difrod i eiddo. Hefyd, mae'r sefydliad yn anelu at ddiogelu pawb, gan gynnwys ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd, i'r graddau y maent yn dod i gysylltiad â'n gweithgareddau, rhag unrhyw berygl rhagweladwy.

Mae gan yr holl weithwyr ddyletswyddau o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Deddfau eraill tebyg ac maent yn cael eu hysbysu o'u cyfrifoldebau personol i gymryd gofal o iechyd a diogelwch eu hunain ac i sicrhau nad ydynt yn peryglu unigolion eraill yn eu gweithredoedd neu eu hesgeulustra. Hysbysir y gweithwyr hefyd bod yn rhaid iddynt gydymffurfio gyda'r sefydliad er mwyn iddo gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a osodir arno ac wrth weithredu'r polisi hwn. Bydd Urdd Gobaith Cymru yn sicrhau ymgynghoriad parhaus gyda'r gweithle er mwyn galluogi i bob safbwynt ac argymhelliad gael eu trafod yn rheolaidd.

Bydd y sefydliad yn sicrhau ymdriniaeth systematig er mwyn adnabod peryglon, asesu'r risg, pennu mesurau rheoli addas a digonol a hysbysu gweithwyr o'r gweithdrefnau cywir sy'n ofynnol i gynnal amgylchedd gwaith diogel.

Byddwn yn darparu, hyd y gellir yn ymarferol, lleoliadau a systemau gwaith diogel, offer a pheiriannau diogel, trin deunyddiau a sylweddau yn ddiogel, darparu cyfarpar diogelu digonol a sicrhau bod gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol yn cael eu rhoi.

Rydym yn ystyried bod yr holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn safon ofynnol ac rydym yn disgwyl i'r rheolwyr gyflawni eu targedau heb gyfaddawdu iechyd a diogelwch.



Arwyddwyd:

Swydd:

Dyddiad:

Prif Weithredwr

Awst 2016

1A Beth i'w wneud mewn achos o argyfwng, damwain neu ddigwyddiad difrifol

Mae'r Urdd wedi darparu ffurflenni damweiniau a digwyddiadau (sydd wedi eu cynnwys yn y pecyn hwn). Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad a ddigwyddodd yn ystod pob gweithgaredd o dan enw'r Urdd, tu fewn a thu allan i'r man cyfarfod, ar deithiau, ymweliadau, a.y.b. Hefyd, mae'n bwysig nodi'r digwyddiadau a'r sefyllfaoedd a all arwain at ddamwain (yr hyn a elwir yn Saesneg yn *near miss*).

Trefn Argyfwng

Beth yw argyfwng? Mae angen ymateb yn wahanol yn ddibynnol ar beth yw'r argyfwng, a beth yw graddfa'r broblem. Yn gyffredinol, mae unrhyw ddigwyddiad sy'n gofyn am gymorth y gwasanaethau brys yn rheswm i ddilyn y drefn argyfwng.

Cyfarwyddyd i wirfoddolwyr

Mewn argyfwng, rhaid i bob aelod o staff/gwirfoddolwr ddilyn y canllawiau canlynol –

- Os oes angen cymorth arbenigol dylid cysylltu â'r awdurdodau perthnasol yn syth, e.e. meddyg, ambiwlans, tân, heddlu, **gan sicrhau bod y cysylltiad wedi'i wneud**. Peidiwch ag oedi - os ydych yn amau bod angen cymorth, cysylltwch. Rhaid i chi roi eich hun yn sefyllfa'r rhieni. Fel arweinydd, eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â'r asiantaethau brys. Mae'n well cysylltu â'r awdurdodau, e.e. y meddyg, er mwyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i berson arall mwy cymwys.

Dylech chi a'r holl arweinyddion fod yn ymwybodol o'ch camau argyfwng pe digwydd argyfwng yn yr Adran/Aelwyd e.e. damwain ddifrifol, tân, a dylai pawb wybod beth yw eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau mewn argyfwng o'r fath.

Gweler trosodd y camau i'w dilyn adeg argyfwng

Y camau i'w dilyn ar adeg argyfwng

1. Sicrhewch fod un o'r arweinyddion a/ neu gynorthwydd yn goruchwylio gweddill y grŵp.
2. Aseswch ddifrifoldeb y ddamwain gan asesu difrifoldeb y niwed.
3. Os yw'n niwed difrifol Cysylltwch gyda'r gwasanaethau brys
Cysylltwch gyda'r Swyddog Datblygu
Cysylltwch gyda'r rhiant/ gwarchodwr
Cwblhewch y ffurflen cofnodi damwain a'i hanfon ar unwaith i'r Swyddog Datblygu a/ neu Gyfarwyddwr Talaith
Meddyliwch a chofnodwch yr holl fanylion ac amseroedd yn gywir ac yn drylwyr.
4. Os nad yw'n niwed difrifol Deliwch gydag anghenion yr aelod
Rhowch wybod i'r rhiant/ gwarchodwr beth ddigwyddodd ar ddiwedd y cyfnod neu ynghynt gan ddibynnu ar y sefyllfa. **Cwblhewch y Ffurflen Damwain a'i hanfon ar unwaith i'r Swyddog Datblygu**

Rhifau Cyswilt yr Urdd mewn achos o niwed difrifol.

Os oes argyfwng difrifol yn codi, y tu fewn neu tu allan i oriau gwaith lle mae angen cysylltu ag awdurdodau brys dylid ceisio cysylltu â'ch Swyddog Datblygu a/ neu'r Gyfarwyddwr Talaith / Gwersylloedd yr Urdd isod.

Cyfarwyddwr Talaith y Gogledd	07976 00 33 20
Cyfarwyddwr Talaith y De	07976 00 33 21
Rheolwr ar ddyletswydd Gwersyll Llangrannog	01239 652140
Rheolwr ar ddyletswydd Cyfarwyddwr Gwersyll Glan-llyn	01678 541000
Rheolwr ar ddyletswydd Cyfarwyddwr Gwersyll Caerdydd	02920 635 678

Os nad yw'ch Swyddog Datblygu nac un o'r uchod ar gael dylid cysylltu â'r Prif Weithredwr, neu'r Dirprwy Brif Weithredwr drwy ddefnyddio'r rhifau symudol 07976 00 33 00 neu 07976 00 33 01.

2. Man cyfarfod yr adran:

Fel arweinydd(ion) dylech sicrhau fod man cyfarfod yr Adran/ Aelwyd yn ddiogel o flwyddyn i flwyddyn i gynnal gweithgareddau. Defnyddiwch y rhestr wirio ganlynol ar ddechrau eich tymor o weithgareddau gan gadw copi o'r ffurflen yn eich ffeiliau:

	Disgrifiad	Ydi / Nac ydi	Pwyntiau gweithredu
1	A yw'r gangen wedi'i chofrestru fel cangen o'r Urdd?		
2	A yw'r adeilad o faint digonol, yn enwedig ar gyfer rhai gweithgareddau - o leiaf 6 troedfedd sgwâr i bob aelod?		
3	A yw'r mynedfeydd yn glir a'r drysau tân yn weithredol?		
4	A yw'r bocs cymorth cyntaf yn gyflawn ac mewn lle amlwg? Eitemau mewn dyddiad		
5	A ydych hyd eithaf eich gallu yn sicrhau fod pawb yn medru cymryd rhan yng ngweithgareddau'r gangen e.e. mynedfa i gadeiriau olwyn a.y.y.b.?		
6	A yw'r toiledau mewn lleoliad a chyflwr addas?		
7	A yw'r lloriau'n wastad/ rhydd neu a oes gwifrau rhydd ar y llawr? a.y.y.b.		
8	A yw'r arweinydd yn gwybod ble mae'r ffôn agosaf?		
9	A ydy'r holl gynorthwywyr yn gwybod ym mhle y lleolir y diffoddwr(wyr) tân ac yn gwybod sut i'w defnyddio?		
10	A ydych yn gwybod trefn y dril tân?		

Enw'r Prif Arweinydd: _____

Arwyddwyd: _____

Dyddiad: _____

3. Rhestr arfer da trefn argyfwng damweiniau a digwyddiadau difrifol

Dylech chi a'r holl arweinyddion fod yn ymwybodol o'ch camau argyfwng pe digwydd argyfwng yn yr Adran/ Aelwyd e.e. damwain ddifrifol, tân, a dylai pawb wybod beth yw eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau mewn argyfwng o'r fath.

	Disgrifiad	Ticiwch os yw yn weithredol	Pwyntiau Gweithredu
1	<p>Cadwch restr o'r cysylltiadau argyfwng isod wrth law:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Enw rhiant neu warchodwr ii. Cyfeiriad cartref iii. Rhif ffôn cartref/ symudol iv. Rhif ffôn meddyg teulu yr aelod v. Rhif ffôn yr adran ddamweiniau lleol. 		
2	<p>Gwnewch yn siŵr fod gennych ddigon o ffurflenni cofnodi damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd.</p>		
3	<p>Edrychwch dros y ffurflen cofnodi damweiniau fel eich bod yn gyfarwydd â hi.</p>		
4	<p>A oes gwybodaeth ddigonol neu hyfforddiant cymwys gennych chi neu unrhyw un o'r arweinyddion eraill i ddelio gydag unrhyw fân anafiadau hyd at ddamweiniau mwy difrifol fel torri coes? Os na, trafodwch eich anghenion hyfforddi gyda'ch Swyddog Datblygu.</p>		
5	<p>Ble mae'r ffôn agosaf? Gwnewch yn siŵr fod unrhyw ffôn symudol yn gweithio cyn bod cyfarfod o'r Adran/ Aelwyd, rhag ofn.</p>		
6	<p>A ydych chi a'r arweinyddion yn sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw afiechyd a ddioddefir gan aelodau o'r gangen ac yn gwybod sut i ddelio â'r cyflyrau meddygol pe bai angen e.e. y fogfa / <i>asthma</i>, ffit epileptig, clefyd siwgr / <i>diabetig</i> a.y.y.b? (Dylai'r wybodaeth yma fod ar y ffurflenni ymaelodi).</p>		
7	<p>Mae angen sicrhau fod gan yr Adran (neu'r man cyfarfod) focs cymorth cyntaf, a bod rhywun yn gyfrifol am sicrhau fod cyflenwad digonol o ddeunyddiau priodol ynddo.</p>		
8	<p>Dylai'r holl arweinyddion a chynorthwyr fod yn ymwybodol o leoliad y bocs cymorth cyntaf.</p>		

4. ASESU RISG

Asesu Risg – Y nôd yw sicrhau na fydd unrhyw un yn sâl, nac yn cael eu hanafu.

Asesu risg yw edrych yn ofalus ar beth, o fewn ein gweithgareddau, a allai beri niwed i bobl, **fel y gallwn bwysu a mesur a ydym wedi cymryd digon o gamau diogelu neu a ddylem wneud mwy i atal niwed.**

Mae angen paratoi **Asesiad Risg** ar gyfer pob un o weithgareddau'r Urdd. Ond mae Asesiadau Risg pwrpasol wedi eu paratoi yn barod ar gyfer ystod eang o weithgareddau ac maent ar gael ar wefan yr Urdd yn safle'r Arweinyddion. Mae Asesiadau Risg wedi eu paratoi ar gyfer gweithgareddau adran, chwaraeon a theithiau, a'r cyfan sydd angen ei wneud ydi addasu'r ffurflenni hyn ar gyfer eich gweithgaredd chi.

Perygl a risg - peidiwch â gadael i'r geiriau yma eich dychryn. Yn ei hanfod mae asesiad risg yn gydbwysedd rhwng y perygl a thebygolrwydd.

- Os yw'r difrifoldeb yn uchel a'r tebygolrwydd yn isel - popeth yn iawn.
- Os yw'r difrifoldeb yn isel a'r tebygolrwydd yn uchel - gall hynny fod yn iawn ond dylid ceisio cymryd camau i leihau'r tebygolrwydd.
- Os oes difrifoldeb uchel a thebygolrwydd uchel - dyma le mae'n rhaid cymryd camau i leihau'r risg.

Mae perygl yn golygu unrhyw beth a allai achosi niwed, y risg yw'r tebygolrwydd, boed yn uchel neu'n isel, y caiff rhywun ei niweidio gan y perygl.

Camau i asesu risg gweithgaredd

1. Chwiliwch am/ Adnabod y peryglon
2. Penderfynwch bwy allai gael niwed a sut
3. Gwerthuswch ddifrifoldeb y risg
4. Ystyriwch pa mor debygol yw'r perygl o ddigwydd
5. Nodwch yn llawn y camau a gymerir i leihau'r risg

Am gyfarwyddiadau llawn, gweler y daflen amgaeedig a chysylltwch a'ch Swyddog Datblygu lleol am enghreifftiau.

4. Parhad Gofalaeth Plant

Mae prif weithgareddau Urdd Gobaith Cymru wedi eu cyfeirio at aelodau o'r Urdd sydd rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Fodd bynnag, mae cystadlaethau penodol yn Eisteddfod yr Urdd i aelodau o dan 8, gan fod rhai rhanbarthau'r Urdd sydd â'r traddodiad fod plant o dan 8 yn mynychu adrannau'r Urdd.

Ar gyfer unrhyw weithgaredd / ymweliad mae yn ofynnol fod y gymhareb (*ratio*) oedolion/gwirfoddolwyr i aelodau yn ddigonol

Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth drefnu lefelau staffio.

- Oedran, rhyw, a gallu'r grwpiau
- Aelodau sydd ag anghenion addysgol neu feddygol penodol
- Natur y weithgaredd
- Profiad yr oedolion ar ymweliadau a gweithgareddau
- Hyd a natur y daith / natur y llety
- Hyfedredd yr oedolion yn gyffredinol ac ar weithgaredd penodol
- Gofynion y safle yr ymwelir â hi
- Hyfedredd ac ymddygiad yr oedolion
- Anghenion cymorth cyntaf

Os am arweiniad mwy manwyl cysylltwch a'ch Swyddog Datblygu am gyngor.

Arweiniad yn unig yw hwn a ni ddylid mynd o dan y cymarebau a nodir isod o anghenraid. Ar gyfer rhai gweithgareddau / ymweliadau efallai bydd angen i chi addasu'r gymhareb yn unol â'r asesiad risg

- Gweithgareddau yn cynnwys aelodau dan 8 - un oedolyn i bob 6 aelod. Ar ymweliadau a theithiau tu allan i'r man cyfarfod arferol, rhaid i rieni oruchwylio aelodau dan 8.
- I aelodau dros 8 oed - un oedolyn ar gyfer bob 10-12 plentyn mewn gweithgaredd, ond gall hyn amrywio wrth ystyried natur y weithgaredd ac oedran yr aelodau.
- Yn ddelfrydol dylid ceisio sicrhau dynion a merched i ofalu am grwpiau cymysg.
- Mae angen o leiaf dau ofalwr gyda phob grŵp waeth pa mor fach yw'r grŵp.
- Dylid trafod unrhyw gynlluniau i drefnu taith dramor gyda'ch Swyddog Datblygu lleol.
- Gweler hefyd ein polisi parthed gweithgareddau awyr agored yn y llythyr ar dudalen 17

4A: Llythyr Gweithgareddau Awyr Agored

Er mwyn atgoffa staff a gwirfoddolwyr o'n polisi parthed gweithgareddau awyr agored.

AT: STAFF A GWIRFODDOLWYR, URDD GOBAITH CYMRU

Annwyl Gyfaill

PARTHED: GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED

Mae materion lechyd a Diogelwch o fewn yr Urdd yn hanfodol bwysig, yn enwedig wrth ystyried gweithgareddau awyr agored, felly ysgrifennaf i ddatgan polisi clir yr Urdd sydd wedi ei fabwysiadu gan y Panel lechyd a Diogelwch:

“Nid oes hawl gan unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwr i drefnu gweithgareddau awyr agored i'r aelodau yn enw Urdd Gobaith Cymru heb gymwysterau addas, cofnod o asesiad risg a chysylltiad ag aelod o staff sydd â hawl i roi caniatâd. Os yn defnyddio darparwr allanol, dilyd gofyn am yr asesiad risg a chymwysterau staff y darparwr allanol.”


Mae Arwel Phillips, Dirprwy Bennaeth Glan-Ilyn ar gael i gynghori ac i wirio gwybodaeth a dderbynnir oddi wrth ddarparwyr parthed gweithgareddau yn y maes drwy gysylltu yn y lle cyntaf ar y ffôn: 01678 541 000.

Mae gweithgareddau awyr agored yn cynnwys hwylio, canwio, hwyl-fyrddio, dringo, cerdded mynydd, cerdded afon, cerdded arfordir ac unrhyw weithgaredd yn y môr, llyn neu afon, teithiau cerdded a theithiau beiciau.

Mae gweithgareddau cae chwarae ac unrhyw weithgaredd mewn canolfannau fel Llangrannog, Glan-Ilyn, Canolfan Mileniwm Cymru a Phentre Ifan yn iawn, ynghyd â threfniadau sydd yng ngofal Swyddogion Datblygu'r Urdd.

Os nad ydych yn sicr os yw eich gweithgaredd yn addas cysylltwch gydag Arwel Phillips yng Nglan-Ilyn, neu â'ch Swyddog Datblygu lleol am arweiniad.

Cofion caredig



Sioned Hughes

Prif Weithredwr

CYNLLUNIO AC ASESIAD RISG

Graddfa Risg

Uchaf yw'r rhif y mwyaf o flaenoriaeth sydd i'r risg ac felly angen mwy o adnoddau i leihau y risg yn ein canllawiau (hyfforddiant, offer a.y.b.)

6 - 9 risg uchel

angen ystyried nifer o bethau gan gynnwys offer arbenigol, hyfforddiant, lefel uchel o orychwiliaeth a defnyddio y lefel priodol mwyaf effeithlon o ddileu neu reoli y risg

2 - 4 risg canolig

risg arwyddocaol ac angen adnoddau priodol

1 risg isel

risg isel ond dylid cymryd camau i leihau y risg os yn bosib.

Tebygolrwydd → Difrifoldeb ↓	Uchel 3	Canolig 2	Isel 1
Uchel 3	9	6	3
Canolig 2	6	4	2
Isel 1	3	2	1

Termau

Perygl – hynny all achosi niwed corfforol

Difrifoldeb – pa mor ddifrifol buasai'r niwed yn gallu bod:

- 1: Anaf sydd angen cymorth cyntaf syml
- 2: Anaf sydd angen cymorth pellach (doctor, ysbyty)
- 3: Anaf difrifol neu farwolaeth

Tebygolrwydd – pa mor debyg ydy i'r perygl o ddigwydd

- 1: Annhebyg iawn o ddigwydd
- 2: Posib o ddigwydd
- 3: Tebyg iawn o ddigwydd

Lleihau wrth – y gweithred sy'n lleihau unai difrifoldeb neu/a tebygolrwydd o'r perygl.

Gwir risg – y graddfa risg wedi ystyried y gweithred i "leihau". Dangosir lle mae'r risg wedi'i leihau mewn cromfachau o dan "ddifrifoldeb" neu "debygolrwydd".

Offer pwrpasol – hyn sy'n ddisgwyliedig i Arweinydd / Swyddog Datblygu/leuenctid/Prosiect ei gario wrth fynychu gweithgaredd/digwyddiad.

Adran/ Aelwyd :

Dyddiad :

Lleoliad :

Llofnod :

1 – isel / 6 - uchel

Perygl	Lefel y Perygl	Tebygolrwydd	Risg	Lleihau wrth	Gwir Risg
Unigolyn coll	2	2(1)	4(2)	Lefelau goruchwyliaeth addas.	2
Bwlio	2	2	4	Goruchwyliaeth a rheolau cadarn Dilyn polisiau bwlio yr Urdd	4
Syrthio o uchder (ffenest) (balconi)	3	1	3	Ffenestri gyda system cloi addas. Canllawiau balconi i'w dilyn. Asesu addasrwydd ystafelloedd cyn y daith	3
Dwr poeth/llosgi	3	1	3	Tymheredd dwr poeth o'r tap neu'r gawod dim mwy na 43°C Gofal wrth gario te a choffi	3
Traffig	2	2	4	Stiwardio maes parcio	4
Tan	3	1	3	Dilyn canllawiau tan yr adeilad	3
Bygythiadau	2	2	4	Dilyn canllawiau delio gyda unigolion bygythiol Lefelau staffio addas	4
Dieithriad	3	2(1)	6(3)	Lefelau staffio addas Rheolau Amseroedd a manau cyfarfod	3

Gormod o bobl ar y safle	2	2(1)	4(2)	Lefelau staffio addas	2
Lithro /syrrthio /baglu	2	1	2	Gofal Dim Rhedeg	2
Trydan	2	1	2	Gwirio offer Goruchwyliaeth PAT test	2
Camfihafio	2	1	2	Rheolau a disgyblaeth pendant	2
Lladrata	2	1	2	Cadw offer drud dan glo Cloi y safle gyda'r nos	2
<u>Offer</u>	Unigol			Swyddog Datblygu/leuenctid/Prosiect	
Angen				Trefn argyfwng, Asesiadau risg tan Ffon symudol, ffurflenni iechyd, cyswllt argyfwng	
Awgrymiadau				Cod ymddygiad Map o'r safle, ffon symudol,	

Cyfrifoldeb yr Aelodau Gwrando ymateb i gyfarwyddiadau, hyfforddiant, a rheolau. Cyfrifoldeb dros offer personol. Cyfrifoldeb dros ei hunan, ac aelodau eraill o'r grŵp. **Ffurflenni Asesiadau Risg gwag ar gael ar:** www.urdd.cymru/cy/arweinwyr

5. Tystysgrif Yswiriant



Certificate of Employers' Liability Insurance (a)

(Where required by regulation 5 of the Employers' Liability (Compulsory Insurance) Regulations 1998 and amended by The Employers' Liability (Compulsory Insurance) (Amendment) Regulations 2008 (the Regulations), one or more copies of this certificate must be displayed at each place of business at which the policy holder employs persons covered by the policy. Alternatively, the policy holder is permitted to display this certificate in electronic form, provided each employee covered by the policy has reasonable access to it)

Policy Number UC CMK 3958912

- | | |
|---|--------------------|
| 1. Name of policy holder | Urdd Gobaith Cymru |
| 2. Date of commencement of insurance policy | 1st April 2016 |
| 3. Date of expiry of insurance policy | 31st March 2017 |

We hereby certify that subject to paragraph 2:-

- the policy to which this certificate relates satisfies the requirements of the relevant law applicable in Great Britain, Northern Ireland, the Isle of Man, the Island of Guernsey, the Island of Jersey or the Island of Alderney (b); and
- (a) the minimum amount of cover provided by this policy is no less than £5 million (c)

Signed on behalf of Travelers
Insurance Company Limited
(Authorised Insurer)


Matthew Wilson
Chief Executive Officer

Notes

- (a) Where the employer is a company to which regulation 3(2) of the Regulations applies, the certificate shall state in a prominent place, either that the policy covers the holding company and all its subsidiaries, or that the policy covers the holding company and all its subsidiaries except any specifically excluded by name, or that the policy covers the holding company and only the named subsidiaries.
- (b) Specify applicable law as provided for in regulation 4(b) of the Regulations.
- (c) See regulation 3(1) of the Regulations and delete whichever of paragraphs 2(a) or 2(b) does not apply. Where 2(b) is applicable specify the amount of cover provided by the relevant policy.

Travelers Insurance Company Limited
Registered in England 1034043
Registered office: Exchange Court, 30 St Mary Axe, London, EC3A 8AG

EL Certificate (Excl Offshore) 01.16



Urdd

Diogelwch Plant

6. Datganiad Polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc


Mae Urdd Gobaith Cymru yn ymrwymedig i amddiffyn plant rhag niwed. Mae staff a gwirfoddolwyr yn y sefydliad hwn yn derbyn ac yn cydnabod eu cyfrifoldebau i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n gallu peri niwed i blant a phobl ifanc.

Byddwn yn ymdrechu i amddiffyn plant drwy:

- ◆ fabwysiadu canllawiau amddiffyn plant trwy gyfrwng gweithdrefnau a chôd ymddygiad ar gyfer staff a gwirfoddolwyr
- ◆ rannu gwybodaeth am amddiffyn plant ac arfer da gyda phlant, rhieni, gofalwyr, staff a gwirfoddolwyr
- ◆ rannu gwybodaeth am bryderon gydag asiantaethau angenrheidiol, a chynnwys rhieni a phlant fel y bo'n briodol
- ◆ ddilyn y trefniadau ar gyfer recriwtio a dethol staff a gwirfoddolwyr yn ofalus
- ◆ ddarparu rheolaeth effeithiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr trwy oruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant.

Rydym yn ymrwymedig i adolygu ein polisi a'n harferion da yn rheolaidd.

Yn gywir

A rectangular box containing a handwritten signature in black ink. The signature appears to be 'S. Hughes'.

Polisiau Cyffredinol Urdd Gobaith Cymru


O fewn Llawfyr Arweinyddion yr Urdd, rydym am sicrhau bod gennych yr wybodaeth anghnrheidiol o'r polisiau mwyaf perthnasol i'ch rôl yn arwain a chynorthywo mewn adrannau ac aelwydydd yr Urdd led led Cymru.

Mae ein polisiau i'w gweld wrth fewngofnodi eich cangen arlein

www.urdd.cymru/cy/arweinwyr

Dyma rhestr o holl bolisiau:

<u>Enw</u>	<u>Fersiwn</u>	<u>Diweddariad diwethaf</u>
Cardiau Cod Ymddygiad a Chanllawiau Diogelu Plant		
Polisi Diogelu Plant a Phobl ifanc	5	Medi 2015
Polisi a Chanllawiau Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol	2	Medi 2015
Polisi a Chanllawiau Gwrth-Fwlio	5	Medi 2015
Polisi a Gweithdrefnau Diogelwch Unigolyn coll	3	Medi 2015
Polisi Amddiffyn Plant	17	Medi 2015
Polisi Amgylcheddol	6	Medi 2015
Polisi Cwynion	2	Medi 2015
Polisi Cyfle Cyfartal	5	Medi 2015
Polisi Diogelu Data	4	Medi 2015
Polisi Grym Rhesymol	6	Medi 2015
Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	4	Medi 2015
Polisi Iaith	7	Medi 2015
Polisi Trefn Argyfwng	7	Medi 2015



Urdd

FFURFLENNI

Teitl y Ffurflen	Cyfeirnod y ffurflen	Cyfarwyddiadau	Nodiadau Ychwanegol
Manylion Arweinyddion newydd a chynorthwyol		Rhaid cwblhau hon wrth fewngofnodi am y tro cyntaf ar y system arlein	
Ffurflen Caniatâd i Ymaelodi ag Adran / Aelwyd	7	Rhaid defnyddio'r ffurflen i dderbyn caniatâd i ymaelodi a derbyn gwybodaeth feddygol am unigolion gan eu rhieni/ gwarchodwyr ar ddechrau tymor 1.	Ni ddylid datgelu'r wybodaeth yma i unrhyw un ar wahân i gyd-arweinyddion a staff yr Urdd (yn ôl y galw).
Manylion Pwysig am Aelodau	8	Mae'r ffurflen hon at eich defnydd chi i gadw cofnod canolog o'ch aelodau.	
Tystysgrif iechyd	9	Rhaid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer unrhyw weithgaredd sydd yn ychwanegol i weithgaredd arferol yr Adran/ Aelwyd e.e. teithiau, ymweliad Gwersyll, gweithgaredd a gynhelir mewn canolfan arall e.e. sglefrio iâ/ sgïo.	Dylai'r arweinydd gario copïau o'r ffurflenni hyn yn ystod unrhyw daith a dylid cadw copïau hefyd gyda rhywun nad yw yn rhan o'r daith rhag ofn bod argyfwng ac angen cysylltu â rhieni.
Ffurflen Gofnodi Damwain a Digwyddiad	10	Rhaid cwblhau'r ffurflen hon os oes unrhyw un yn cael anaf yn ystod gweithgaredd. Rhaid anfon y ffurflen ymlaen at eich Swyddog Datblygu lleol.	
Cofrestr	12		Taflen i gadw cofnod o bresenoldeb
Rhaglen Weithgareddau	13	Rhaid anfon copi o'ch rhaglen weithgareddau at eich Swyddog Datblygu.	Dyma enghraifft o ddull i gofnodi eich rhaglen weithgareddau.

8. MANYLION PWYSIG AM YR AELODAU -Mae fersiwn electroneg ar wefan arweinyddion

I'W LLENWI AR ÔL DERBYN FFURFLEN GANIATÂD I YMAELODI YN ÔL GAN Y RHIENI



Urdd

	ENW	BLWYDDYN YSGOL/ OED	CYFEIRIAD	FFÔN	EBOST	FFÔN ARGYFWNG	AFIECHYD/ ALERGEDD	ANGHENION ARBENNIG	RHIF AELODAETH
1									
2									
3									
4									
5									
6									
7									
8									
Ni ddylid datgelu cynnwys y ffurflen hon i neb ond i'r arweinyddion ac i staff yr Urdd.									

9									
10									
11									
12									
13									
14									
15									
16									
17									
18									

Ni ddylid datgelu cynnwys y ffurflen hon i neb ond i'r arweinyddion ac i staff yr Urdd.

19									
20									
21									
22									
23									
24									
25									
26									
27									
28									

Ni ddylid datgelu cynnwys y ffurflen hon i neb ond i'r arweinyddion ac i staff yr Urdd.



Ffurflen Ymaelodi Cangen

Branch Membership Form

2016- 2017

Manylion Aelod
Member Details

Enw

Name

Cyfeiriad

Address

Cod Post

Post Code

Ebost

E-Mail

Ffôn Cartref

Home Phone

0																			
---	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Cangen

Branch

Rhif Aelodaeth

Membership Number

Ysgol

School

Bachgen/Merch

Boy/Girl

Dyddiad Geni / BI Ysgol

Date of Birth / School Year

/ / BI/yr

Ffôn Symudol

Mobile Phone

0																			
---	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Unrhyw anghenion ee Meddygol, Ymddygiad, Emosiynol

Any additional needs eg Medical, Behavioural, Emotional

TRINIAETH FEDDYGOL BRYG I BLENTYN/ EMERGENCY MEDICAL TREATMENT TO YOUR CHILD

**Rhodaf ganiatâd i arweinwyr yr Adran/ Aelwyd drefnu i gael triniaeth feddygol bryg i'm plentyn
_____ pe bai angen.**

I give permission to the leaders of the Adran/Aelwyd to arrange for my child _____ to receive emergency medical treatment, should this be necessary.

Arwyddwyd/ Signed: _____ Dyddiad/ Date: _____

Rhiant/Gwarchodwr

Parent/Guardian

Drwy arwyddo uchod, rwyf yn rhoi caniatâd i'r person a enwir fynychu'r gangen. Rwyf yn fodlon i luniau/fideo gael eu tynnu ar y weithgaredd ar gyfer deunydd hyrwyddo ac y byddaf yn cysylltu â'r gangen o flaen llaw os nad wyf yn hapus i hyn ddiwydd.

Ticiwch y blwch yma () os nad ydych yn cytuno i Urdd Gobaith Cymru gysylltu â chi at ddiben marchnata.

By signing I give permission for the person named above to participate in this branch. I understand that photos and videos might be taken for promotional purposes and I will inform the Urdd beforehand if I do not wish my child to participate

Please tick here () if you do not wish to receive promotional material from Urdd Gobaith Cymru.

Enw
Name

Llofnod
Signed

Dyddiad
Date

E-bost Rhiant/gwarchodwr

Parent/guardian e-mail

@

Ffôn Symudol

Mobile Phone

0																			
---	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Dychweler at / Return to :

Arweinydd Cangen
Branch Leader



Disgrifiad o'r ymweliad/gweithgaredd(au)				<i>Description of visit/activity</i>
Dyddiad a lleoliad yr ymweliad/gweithgaredd(au)				<i>Date and venue of visit/activity</i>
Enw'r Ysgol/Adran/Aelwyd				<i>Name of School/Adran/Aelwyd</i>
1. Enw'r plentyn / person ifanc				<i>Name of child/young person</i>
2. Cyfeiriad				<i>Address</i>
3. Rhif ffôn yr aelod (os ar gael)				<i>Child/young person's mobile phone (if applicable)</i>
4. Rhifau ffôn cyswllt rhieni / gwarchodwyr yn ystod cyfnod y daith / gweithgaredd (Rhifau symudol / gwaith ayb)	Rhif ffôn cartref		<i>Home phone number</i>	<i>Telephone No's of parents / guardians during the period of the activity (mobile phones/ work numbers etc)</i>
	Rhif ffôn symudol		<i>Mobile number</i>	
5. Oed a dyddiad geni				<i>Age and date of birth</i>

MANYLION IECHYD

6. Ydy'ch plentyn yn dioddef o unrhyw afiechyd/alergedd sy'n galw am sylw arbennig e.e. asthma, migraine, epilepsy, diabetes, meddyginiaeth, alergedd i benisilin, bwydydd arbennig, anifeiliaid ag ati, neu oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylai arweinwyr y gweithgaredd fod yn ymwybodol ohono?

<p>YDY / NAC YDY YES / NO</p>

HEALTH INFORMATION.

Does your child suffer from any illness/allergy that calls for special attention or diet e.g. asthma, migraine, epilepsy, medicine, diabetes, allergy to penicillin, food additives, animals, plasters etc., or is there any other information which the leader of the activity should know e.g. behaviour problems?

7. Os YDY, rhaid nodi manylion manwl a thriniaeth (defnyddiwch dudalen arall os oes angen)

If YES, please give details and treatment (please continue on separate sheet if necessary)

8. Enw, cyfeiriad a rhif ffôn eich meddyg

Name, address and telephone number of own doctor

Rwyf yn cytuno i fy mab/merch dderbyn triniaeth ddeintyddol/feddygol/lawfeddygol argyfwng angenrheidiol yn unol â chynghor meddygol oni bai y noder yn wahanol ar y ffurflen iechyd.

I agree to my child receiving emergency dental, medical or surgical treatment as considered necessary by the medical authorities unless noted differently on the health certificate.

Ydw Nac ydwyf Yes NO

Byddwn yn darparu meddyginiaethau/ triniaethau syml e.e. moddion at gur pen, glanhau cwt / briw a'i orchuddio a.y.b. oni bai eich bod yn nodi yn wahanol.

Simple everyday medicines and treatments e.g. medicines for headache, cleaning of cuts and dressings will be administered unless you inform us differently.

Llofnod Rhiant

Parental Signature

Printiwch eich enw

Name in Capitals


11. **FFURFLEN COFNODI DAMWAIN A DIGWYDDIAD –
URDD GOBAITH CYMRU**



Adran/ Swyddfa Branch/Department: _____

Eich enw chi /Name:(*prif lythrennau*):_____

Dyddiad y ddamwain/ digwyddiad <i>Date of accident/incident:</i>			
Amser y ddamwain/ digwyddiad: <i>Time of accident/incident:</i>	am/pm		
Union leoliad y ddamwain: <i>Exact location of accident:</i>			
Enw'r person yn y digwyddiad <i>Name of Person involved in incident</i>			Benyw/ Gwryw <i>Male/Female</i>
Oed (os o dan 18) <i>Age (if under 18)</i>		Dyddiad Geni <i>Date of Birth</i>	
Cyfeiriad / adran / aelwyd / ysgol: <i>Address/ adran/aelwyd/school</i>			
Enw tystion i'r digwyddiad: <i>Name of witnesses to the incident:</i>			
Cyfeiriad a manylion cyswllt tystion: <i>Contact details of witness(es)</i>			
A anafwyd y person? <i>Was the person injured?</i>	Do /Yes () Naddo /No ()		

<p>Manylion: Beth ddigwyddodd?</p> <p>Beth oedd y person yn ei wneud?</p> <p><i>Details: What happened? What was the person doing</i></p>	<p>Pa ran o'r corff anafwyd? - Blaen / Cefn? Nodwch â chroes</p> 
<p>Pa driniaeth cymorth cyntaf a roddwyd?</p> <p><i>What first aid treatment, if any, was given?</i></p> <p>(os o gwbl):</p>	<p><i>What part of the body was injured?- back front? Mark with X</i></p>
<p>Triniaeth bellach/ Further treatment:</p>	<p>Yr anaf/ The injury:</p>

Arwyddwyd/Signed: _____ Swydd/Job: _____

Dyddiad/Date: _____ Amser/Time: _____

Plentyn wedi ei drosglwyddo i ofal Rhiant/Gwarcheidwad cyn/yn ystod/ar ôl triniaeth
Child transferred to the care of parent/guardian before/during/after treatment

Enw Rhiant/Gwarcheidwad/Athro Name parent/guardian/teacher : _____

PRIF LYTHRENNAU / Capitals

Arwyddwyd/Signed: _____ Amser / Time: _____ am/ pm

Cadeirydd Panel Iechyd a Diogelwch: Iestyn Evans, Gwersyll yr Urdd Llangrannog, Llandysul, Ceredigion. SA44 6AE. 01239 652140

At ddefnydd Swyddog Iechyd a Diogelwch yr Urdd – parhad

Urdd Health and Safety Officer use only – continued

FFURFLEN COFNODI DAMWAIN A DIGWYDDIAD – URDD GOBAITH CYMRU -

Manylion digwyddiad/damwain sydd yn cael ei gyfeirio at RIDDOR

Details of incident/accident referred to RIDDOR

Swyddog Iechyd a Diogelwch yr Urdd i gwblhau'r adran hon, os oes angen cyfeirio'r ddamwain at RIDDOR <i>Urdd Health and Safety Officer to complete this section, if there is a need to refer to RIDDOR</i>	
Sut gyfeiriwyd y ddamwain? <i>How was the accident reported</i>	Ffôn / Ffacs / E-bost / Arall:
Cwblhau 'F2508' neu 'F2508A' <i>Complete 'F2508' or 'F2508A'</i>	Ie / Na
Dyddiad y cyfeirio <i>Date of referral</i>	
Cyfeirnod y ganolfan <i>Centre reference number</i>	
Enw / <i>Name</i>	
Llofnod / <i>Signed</i>	

Nodiadau / Notes

Rhaid i Swyddog Iechyd a Diogelwch yr Urdd gadw'r ffurflen hon am gyfnod o 5 mlynedd os yw sawl sydd yn derbyn y ddamwain, dros 18 oed, os yw o dan 18 oed, rhaid cadw'r ffurflen hon am gyfnod o 5 mlynedd ar ôl i'r person ifanc gyrraedd 18 oed.

Urdd Health and Safety officer must keep this document for 5 years, if the person who is injured is over 18, if the person is under 18, the document must be kept for 5 years after the young person turns 18.

12. Anghenion Hyfforddi Gwirfoddolwyr ac Arweinyddion

Mae'r Urdd yn gallu darparu hyfforddiant i'w gwirfoddolwyr.

Isod mae rhestr o bynciau hyfforddi gall yr Urdd ddarparu i chi yn rhad ac am ddim. Rydym hefyd am dderbyn eich awgrymiadau chi ar eich anghenion hyfforddi chi

Cymhwyster – Gwaith Ieuenctid Lefel 2 – Dyfarniad mewn gwaith Ieuenctid

Cymorth Cyntaf

Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Syniadau am weithgareddau dan do ac adnoddau'r Urdd

Asesiadau Risg

Trefnu taith

Cefndir ar Waith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion

Marchnata a hyrwyddo gweithgareddau

Cyrsiau penodol ar waith Ieuenctid

Cysylltwch yn uniongyrchol gyda Swyddog Hyfforddi Cenedlaethol yr Urdd - catrinj@urdd.org
01267 676734

13. COFRESTR

DYDDIAD POB CYFARFOD

Dyddiad isod ac yna defyddiwch ✓ ar gyfer dynodi presenoldeb a √ i dynodi derbyn taliad

<u>ENW</u>	BLWYDDYN YSGOL / OED		Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl	Presenoldeb	Tâl														

14. ENGHRAIFFT O RAGLEN WEITHGAREDDAU


Rhaid anfon copi o raglen weithgareddau eich Adran/ Uwch Adran/ Aelwyd at eich Swyddog Datblygu ar gychwyn pob tymor

ADRAN/ UWCH ADRAN/ AELWYD: _____

RHAGLEN Y TYMOR: _____

Dyddiad	Amser	Lleoliad	Gweithgareddau	Arweinyddion

Dyddiad	Amser	Lleoliad	Gweithgareddau	Arweinyddion
27/9/16	5-6:30	Parc y Fro, Aberaeron	Gêm Rownderi	CM a AE
11/10/16	5-6.30	Neuadd Caerweddros	Pêl-droed a chwarae tipit	RJ a AE
1/11/16	5-6.30	Neuadd Caerweddros	Noson Sgiliau Sycas gyda Rhydian, Swyddog yr Urdd	RJ a CM
15/11/16	5-6.30	Neuadd Caerweddros	Noson gyda'r arlunydd Rhiannon Roberts	AE a HD
29/11/16	5-6.30	Neuadd Caerweddros	Gweithdy Clocsio	HD a CM
13/12/16	5-6.30	Neuadd Caerweddros	Canu Carolau o gwmpas y Pentref	Pawb



Urdd


Gwybodaeth Gyffredinol

15. Cymorth a Chefnogaeth

Cofiwch bod gan yr Urdd dîm o staff sydd yn gweithio ym mhob Rhanbarth ar hyd a lled Cymru. Maent yn gallu:

- Cynnol noson o hwyl
- Cynorthwyo gyda grantiau
- Trefnu teithiau
- Trefnu gwiriad GDG (dbs)
- Rhoi menthyg offer ac adnoddau
- Cynnig syniadau am sesiynnau hwyliog

16. Ap Yr Urdd / GWEFAN YR URDD – urdd.cymru



Mae gan Urdd Gobaith Cymru wefan fywiog sy'n denu bron i 950,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Ewch i ymweld â hi! www.urdd.cymru

Bydd modd derbyn gwybodaeth am yr eisteddfod, cylchgronau, aelodaeth, gwersylloedd, chwaraeon a phob math o ffeithiau difyr am yr Urdd ynghyd a gweld rhestr lawn o ddigwyddiadau eich ardal yn www.urdd.cymru/fyrdal

Ap Fy Ardal

Ynghyd a gwefan ddefnyddiol mae Ap digwyddiadau gan yr Urdd 'Fy Ardal'

Dyma ap unigryw sy'n ei gwneud yn hawdd iawn chwilio am weithgareddau cyfrwng y Gymraeg yn eich ardal! Gyda dros 3,000 o weithgareddau yn cael eu trefnu yn flynyddol gan yr Urdd, dyma'r ffordd orau i chi weld beth sy'n digwydd o'ch cwmpas!

Ar gael o Google Play ac i-Store.

17. DYDDIADAU I'W COFIO

a) Eisteddfod

Cyfeiriwch yn ôl at y Rhestr Testunau. Mae popeth ar gael ar wefan yr Eisteddfod – urdd.cymru/eisteddfod Adran yr Eisteddfod: 01678 541012

b) Chwaraeon Cenedlaethol 2016 - 2017

			Dyddiad	Lleoliad
2016	Pêl-rwyd	Bl. 7-13	Dydd Iau 24/11/2016	Caerdydd
2017	Gala Nofio	Cynradd	Dydd Sadwrn 21 Ionawr	Pwll Rhyngwladol Caerdydd
		Uwchradd	Dydd Sul 22 Ionawr	
	Gymnasteg	Cynradd	Dydd Mercher 15 Chwefror	Canolfan Hamdden Plascrug, Aberystwyth
		Uwchradd	Dydd Iau 16 Chwefror	
	Rygbï Bechgyn	Bl. 7-13	3 – 6 Ebrill 2017	Pencoed
	Rygbï Merched	Bl. 11-13	3 – 6 Ebrill 2017	
	Gŵyl Cynradd	Cynradd	Dydd Sadwrn a Sul 06-07 Mai	Aberystwyth
	Rygbï Merched	Bl. 7-8 Bl. 9-10	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
	Criced	Bl. 4	Mehefin/Gorffennaf	Castell Caerdydd
	Rygbï 'Touch'	Bl. 7-8 Bl. 9-10	I'w gadarnhau	Caeau Chwarae Blaendolau, Aberystwyth

Cysylltwch â ni:
chwaraeon@urdd.org


c) Dyngarol – cyhoeddir adnoddau ar wefan yr Urdd

Am fanylion ar yr adnoddau gweler gwefan yr Urdd

Sul yr Urdd	20 Tachwedd 2016
Dydd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd	18 Mai 2017



2016-2017 PECYN AELODAETH



Enw defnyddiwr a
chyfrinair eich cangen

NODER

Mae'r manylion hyn yr un fath ar
gyfer eich cangen â'r llynedd

PRIS AELODAETH YR URDD 2016/2017

£7 y pen /
£19 teulu
(3 neu fwy o blant)
ERBYN 1 RHAGFYR 2016

£8.50 y pen /
£21.50 teulu
(3 neu fwy o blant)
AR ÔL 1 RHAGFYR 2016

Dylid gwneud unrhyw
siec yn daladwy i Urdd
Gobaith Cymru

Annwyl arweinydd,

Diolch am eich gwaith yn arwain gyda'r Urdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac os ydych yn arweinydd newydd, croeso mawr i chi!

Mae'r Urdd yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau i'w haelodau ledled Cymru - o gystadlu yn yr Eisteddfod i ymuno gyda chlwb chwaraeon, aelwyd neu adran leol neu fynd ar wyliau i un o'r gwर्सylloedd.

Mae croeso cynnes i bawb yn yr Urdd - mudiad sydd yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg tu allan i oriau ysgol.

Yn y pecyn hwn cewch:-


- **Dabl syml yn egluro y system ymaelodi (tudalen 2)**
- **Meini prawf ymaelodi fel dysgwr (tudalen 3)**
- **Canllawiau cofrestru yn Eisteddfod yr Urdd (tudalen 3)**
- **Ffurflen y gallwch ddsbarthu i annog aelodaeth (tudalen 4)**

Mae rhagor o wybodaeth am ymaelodi ar ein gwefan, ond os oes gennych unrhyw gwestiwn mae croeso i chi gysylltu gyda'n Swyddog Aelodaeth ar aelodaeth@urdd.org neu **01239 652 162**.

Os ydych chi yn chwilio am syniadau am sesiynau yn eich adran / aelwyd cofiwch fod adran arweinwyr ar y wefan, ble cewch enw eich Swyddog Datblygu lleol sydd yna i'ch cefnogi a 'Llawlyfr Arweinyddion' sydd yn llawn syniadau am sesiynau - urdd.cymru/cy/arweinwyr.



2016-2017 PECYN AELODAETH



PRIS AELODAETH YR URDD 2016/2017

£7 y pen /
£19 teulu
(3 neu fwy o blant)
ERBYN 1 RHAGFYR 2016

£8.50 y pen /
£21.50 teulu
(3 neu fwy o blant)
AR ÔL 1 RHAGFYR 2016

Dylid gwneud unrhyw
siec yn daladwy i Urdd
Gobaith Cymru

Mae system ymaelodi'r Urdd bellach ar y we yn unig. Dyma dabl i'ch arwain trwy'r broses ymaelodi.

Annog aelodaeth ymysg y gangen neu'r ysgol. Gallwch ddsbarthu y daflen ar dudalen 4 trwy ei llungopio neu gael copi electroneg o urdd.cymru/ymuno. Mae taflenni 'Beth yw'r Urdd' ar gael hefyd os ydych eisiau cyflwyno yr Urdd i aelodau newydd (enghreifftiau wedi eu cynnwys a chopïau ar gael gan eich Swyddog Datblygu lleol).

Derbyn arian aelodaeth ac amlenni Cymorth Rhodd yn ôl gan rieni a gwarchodwyr.

Defnyddio eich enw defnyddiwr a chyfrinair i gofrestru a thalu (mae eich enw defnyddiwr a chyfrinair ar flaen y pecyn hwn). Gellir talu gyda cherdyn, PayPal neu siec. Os yn talu â cherdyn neu PayPal cewch rifau aelodaeth yn syth; os yn talu â siec yna fe ryddheir y rhifau ar ôl derbyn eich taliad yn y post.

Dychwelyd yr amlenni Cymorth Rhodd (yn wag) yn y post i Swyddfa'r Urdd (cyfeiriad ar y chwith) a siec, os yn talu gyda siec, gyda chopi o'r anfoneb.

Bydd yr adran aelodaeth yn derbyn eich manylion ac yn anfon pecyn aelodaeth sy'n cynnwys bathodynnew a chardiau aelodaeth atoch. Noder yn ystod cyfnod prysur gall hyn gymryd hyd at 4 wythnos. Bydd modd cadw cofnod ac argraffu rhestr o'ch aelodau.

Eisiau cymorth neu gywiro enw / manylion?


Cysylltwch
gyda Swyddog
Aelodaeth yr Urdd ar
aelodaeth@urdd.org
neu 01239 652 162

Cyfeiriad i anfon siec ac amlenni Cymorth Rhodd

Adran Aelodaeth
Swyddfa Penhelyg
Gwersyll Llangrannog
Llandysul, Ceredigion
SA44 6AE



2016-2017 PECYN AELODAETH



I gael pris
rhatach, cofiwch
ymaelodi erbyn
**1 Rhagfyr
2016**

RHEOL Y DYSGWYR

Wrth ymaelodi dylech nodi ai siaradwr Cymraeg neu Ddysgwr yw'r aelod yn unol â rheolau canlynol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd:

Disgyblion Cynradd:

Dysgwyr yw aelodau nad ydynt wedi / yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1 a 2. Os ydynt yn hwyr ddyfodiaid di-Gymraeg mewn ysgol lle mae mwyafrif y disgyblion yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg caniateir iddynt gystadlu fel dysgwyr am eu tair blynedd gyntaf yn yr ysgol.

Disgyblion Uwchradd:

Dysgwyr yw'r aelodau hynny nad ydynt wedi / yn dilyn Rhaglen astudio Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1, 2 na 3. Caniateir hwyrddyfodiaid di-Gymraeg i gystadlu fel dysgwyr.

Byddem yn gobeithio na fydd aelodau lle mae un rhiant yn y cartref yn medru'r Gymraeg yn cystadlu fel dysgwyr.

COFRESTRU CYSTADLEUWYR EISTEDDFOD YR URDD AR-LEIN

Rhaid i bawb sydd eisiau cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2017 gofrestru ar-lein. Nid oes ffurflen gofrestru ar bapur.

Bydd modd cofrestru'r holl gystadleuwyr ym mhob cystadlaeth ar-lein trwy ddefnyddio yr un enw defnyddiwr a chyfrinair ag a geir yn y pecyn hwn. Bydd y system yn dangos manylion y cystadlaethau ynghyd ag enwau a rhifau aelodaeth. Bydd angen sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael, e.e. pa gyweirnod cerdd dant, manylion hunan-ddewisiadau, bod pawb yn aelod, ayb. Os na fydd yr holl fanylion yn cael eu bwydo'r i'r system, ni fydd modd cofrestru'r cystadleuydd ac ni fydd y system yn derbyn y ffurflen.

Mae gan bob Rhanbarth o'r Urdd ddyddiad cau penodol, ac yna cyfnod o 72 awr i wirio'r holl wybodaeth. Ar ôl y cyfnod hwn, fe fydd y system yn cau.

Bob blwyddyn rydym yn derbyn ambell gais ar ôl y dyddiad cau a'r cyfnod gwirio. Nid oes modd ychwanegu cystadleuwyr hwyr oni bai y telir ffi weinyddol o £25:00 ar gyfer pob cystadlaeth. Nid oes gwahaniaeth pa fath o gystadlaeth, boed yn unawd neu'n gôr, bydd y ffi ar sail y gystadlaeth ac nid nifer y cystadleuwyr.


Rydym yn eich cyngori i baratoi ar gyfer cofrestru trwy sicrhau bod:

- **pawb sy'n cystadlu wedi ymaelodi**
- **bod gennych fanylion y cystadlaethau cyn y dyddiad cau**
- **eich bod yn gadael digon o amser ar gyfer cofrestru**

Gall rhieni neu arweinyddion wirio pa gystadlaethau mae'r aelodau wedi eu cofrestru i gystadlu trwy ymweld â gwefan yr Urdd - urdd.cymru/cofrestru



2016-2017 AELODAETH MEMBERSHIP



PRIS AELODAETH YR URDD 2016/2017

£7 y pen /
£19 teulu
(3 neu fwy o blant)
ERBYN 1 RHAGFYR 2016

£8.50 y pen /
£21.50 teulu
(3 neu fwy o blant)
AR ÔL 1 RHAGFYR 2016

Dylid gwneud unrhyw
siec yn daladwy i Urdd
Gobaith Cymru

URDD GOBAITH CYMRU - YN CYNNIG GWEITHGAREDDAU I BLANT A PHOBL IFANC TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG.

Pam ymaelodi â'r Urdd?

Boed yn hoffi chwaraeon, cystadlu, antur neu gymdeithasau, mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd unigryw i blant a phobl ifanc Cymru.

Trwy ymaelodi, gall eich plentyn / plant wneud gweithgareddau megis ymuno gyda chlwb chwaraeon / adran / aelwyd, cystadlu yn yr Eisteddfod neu gystadleuaeth chwaraeon ac ymweld â'n Gwersylloedd neu fynd ar daith dramor.

Eisiau gwybodaeth am weithgareddau yn eich ardal chi?

Gallwch weld enghreifftiau o'r gweithgareddau mae'r Urdd yn eu cynnig yn eich ardal chi trwy ymweld â urdd.cymru/fy-ardal neu lawrlwytho ap 'Fy Ardal' o'r App Store neu Google Play.

Am ymaelodi eich plentyn?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau yr Amlen Aelodaeth sydd wedi ei chynnwys, a'i dychwelyd gyda'r taliad i'ch ysgol / cangen.

Mwy nag un plentyn eisiau ymaelodi?

Cofiwch ein bod yn cynnig aelodaeth teulu os oes gennych dri neu fwy o blant eisiau ymaelodi gyda'r Urdd. Gellir ymaelodi teulu trwy fynd i urdd.cymru/ymuno

URDD MEMBERSHIP FEE 2016/2017

£7 each /
£19 family
(3 children or more)
**UNTIL 1 DECEMBER
2016**

£8.50 each /
£21.50 family
(3 children or more)
**AFTER 1 DECEMBER
2016**

Cheques should be
payable to Urdd
Gobaith Cymru

URDD GOBAITH CYMRU - OFFERING CHILDREN AND YOUNG PEOPLE ACTIVITIES THROUGH THE MEDIUM OF WELSH

Why join the Urdd?

Whether your child enjoys sports, competing, going on adventures or socialising, the Urdd offers unique experiences to the children and young people of Wales through the medium of Welsh.

By joining, your child / children can enjoy activities such as the local aelwyd (senior youth club) / adran (junior youth club) / sport clubs, competing in the Eisteddfod or sport competitions or enjoying a visit to our residential centres or abroad.

Want to know more about the Urdd's work in your area?

You can find a list of Urdd activities in your area by visiting our website - urdd.cymru/my-area or download our app 'Fy Ardal' which is available from the App Store or Google Play.

How can your child join the Urdd?

All you need to do is complete the Membership Envelope that is included, with membership fee, and return the envelope to your school / local branch.

More than one child that wants to join?

We offer family membership for families with three or more children that want to join the Urdd. Families can join at urdd.cymru/join

RHAGOR O WYBODAETH / MORE INFORMATION

urdd.cymru

CYSYLLTU /
CONTACT
aelodaeth@urdd.org
01239 652 162

**Diolch am wirfoddoli gydag
Urdd Gobaith Cymru**

**Rydym yn gwerthfawrogi eich ymrwymiad
a'ch cefnogaeth.**